

Llythyr ymgynghori â rhanddeiliaid ar gyfer comisiynu arolwg nitradau mewn llysiau gwyrdd deiliog

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 10 Chwefror 2020
Dyddiad cau: 13 Mawrth 2020

Crynodeb o ymatebion

PDF

[Gweld Comisiynu arolwg nitradau mewn llysiau gwyrdd deiliog - ymatebion \(Saesneg yn unig\) as PDF\(Open in a new window\)](#) (118.18 KB)

Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Bu gofyniad hirsefydlog gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE/1258/2011) yn gofyn i aelod-wladwriaethau rannu canlyniadau monitro nitradau mewn llysiau gwyrdd deiliog yn flynyddol, ac adrodd ar waith y diwydiant yn mabwysiadu codau ymarfer amaethyddol da.

Yn flaenorol, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi ariannu'r gwaith o fonitro'n barhaus lefelau nitradau mewn llysiau gwyrdd deiliog dros gyfnod o fwy nag un-ar-ddeg mlynedd. Mae canlyniadau'r arolwg diwethaf, sef y cyfnod rhwng 2014 a 2019 ac [arolygon monitro cynharach, wedi'u cyhoeddi](#).

Mae arolwg newydd yn cael ei gomisiynu i fonitro lefelau nitradau meinwe mewn llysiau gwyrdd deiliog a dyfir yn y cartref. Bydd yr arolwg yn darparu cipolwg ar gyfraddau cydymffurfio'r Deyrnas Unedig (DU) gyda'r lefelau uchaf deddfwriaethol a osodir yn Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1258/2011 ar 2 Rhagfyr 2011 yn diwygio Rheoliad (CE) Rhif 1881/2006 o ran y lefelau uchaf ar gyfer nitradau mewn bwyd.

Mae'r dull yn wahanol i arolygiadau blaenorol gan y bydd ond yn cynnwys cynnyrch a dyfir yn y cartref. Bydd llai o bwyslais ar y categorïau hynny lle gwelwyd dirywiad cyson yn nifer y nitradau fel letys 'iceberg' a mwy o ffocws ar roced lle mae lefelau'n parhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd hefyd cynnydd yn y samplu ar gyfer bresych deiliog (kale), ysgallddail (chard), dail 'bull's-blood', berwr tir a dail bach er mwyn ymchwilio sut mae lefelau nitradau yn amrywio yn y categorïau hyn wrth i gyfran y farchnad gynyddu.

Rydym ni'n gwahodd eich sylwadau ar ddyluniad yr arolwg a sut y gellid defnyddio'r data i nodi mesurau lliniaru posibl i leihau lefelau nitradau ymhellach.

Dylid anfon yr holl sylwadau at ian.smith@food.gov.uk

Gofynnir yn garedig am ymatebion erbyn 13 Mawrth 2020 neu'n gynharach os yw'n bosibl.

Cwmpas yr arolwg arfaethedig

Cesglir samplau yn ystod y broses cynhyrchu cynradd gan y rheiny sy'n tyfu'r llysiau wedi'u recriwtio yn y DU. Dylai'r cynnyrch sy'n cael ei samplu gynnwys:

- Letys ffres; math 'iceberg';
- Letys ffres, math nad yw'n 'iceberg';
- Sbigoglys ffres;
- Roced;
- Llysiau gwyrdd deiliog eraill (ysgallddail, bull-blood, dail bach, berwr tir a bresych deiliog)

Bydd y samplau maes yn gynrychioliadol o'r gwahanol ffyrdd o dyfu e.e. yn yr awyr agored ac wedi'u gwarchod ar gyfer tymhorau tyfu'r haf a'r gaeaf, sy'n nodweddiadol o'r sector cynydau salad domestig

Rhaid i'r fanyleb gynnwys

- Casglu a dadansoddi 150 o samplau maes unigol o letys 'iceberg' ffres a dyfir yn y cartref, letys ffres nad yw'n 'iceberg', sbigoglys ffres a rocce ar raddfa genedlaethol yn flynyddol am hyd at bum mlynedd gyda seibiant ar ôl yr ail flwyddyn i adolygu cynnydd;
- Llysiau gwyrdd deiliog eraill, yn benodol, ysgallddail, bulls-blood, dail bach, berwr tir a bresych deiliog fel elfen o'r arolwg;
- Paratoi a dadansoddi'r samplau gan ddefnyddio gweithdrefnau yn unol â chyfarwydddebau'r Undeb Ewropeaidd neu gyfwerth yn y DU;
- Bydd manylion llawn pob sampl yn cael eu cofnodi mewn cronfa ddata ac yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r ASB ynghyd â methodolegau, canlyniadau a dehongliad llawn gan gynnwys tueddiadau tymor hir, yng nghyd-destun y lefelau uchaf o nitradau a nodir yn neddfwriaeth y DU ar ffurf adroddiad blynyddol ac adroddiad terfynol ar ddiwedd cyfnod yr arolwg;
- Bydd crynodebau misol o ganlyniadau yn cael eu hadrodd i'r ASB a bydd canlyniadau sampl unigol yn cael eu hysbysu i'r tyfwyr llysiau sy'n cymryd rhan;

Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein [hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau](#).

Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU](#). Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.